www.llyw.cymru

# Llywodraeth Cymru
# Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddiol

Tai Cymunedol Bron Afon – L147

Mawrth 2019

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â’u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi’r Dyfarniad Rheoleiddiol hwn o dan adran 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-framework/?skip=1&lang=cy

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

**Sail y Dyfarniad**

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@gov.wales

ISBN Digidol 978-1-78964-828-7
Hawlfraint y Goron 2019

# Proffil

Mae Tai Cymunedol Bron Afon Cyfyngedig ("Bron Afon" neu "y Grŵp") yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, a grëwyd yn dilyn trosglwyddo eiddo'n wirfoddol ar raddfa fawr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ym mis Mawrth 2008. Mae wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae'n Fodel Cydfuddiannol Cymunedol.

Mae ganddo dri is-gwmni:

- Afon Community Services - cwmni cyfyngedig anelusennol a sefydlwyd fel is-gwmni masnachol .
- Afon Community Trust - elusen gofrestredig a chwmni cyfyngedig drwy warant.
- Afon Energy, sy'n segur ar hyn o bryd

Mae'r Grŵp yn berchen ar fwy na 7,989 o gartrefi anghenion cyffredinol ledled Bwrdeistref Sirol Torfaen ac yn eu rheoli . Mae'n rheoli 906 o gartrefi lesddaliad a 73 o gartrefi cydberchenogaeth

Ame 85%Llwyddodd y Grŵp i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru yn 2014 ac mae wedi cynllunio rhaglen datblygu sylweddol, i ddarparu 450 o gartrefi newydd dros 5 mlynedd.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, trosiant y grŵp oedd £45.2m (2017: £43.6m), ar gwarged oedd £960k (2017: £41k) ac roedd yn cyflogi 474 o staff ar gyfartaledd (2017: 497).

## Data Ariannol Allweddol

| | **Data Hanesyddol** | | **Terfyn Cyfamod** | **Cyfartaledd ar gyfer y Sector** |
|---|---|---|---|---|
| | **2016/17** | **2017/18** | | **2016/17** |
| **Perfformiad** | | | | |
| Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant | 6.6% | 9.5% | dd/g | 21.3% |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant | 0.1% | 2.1% | dd/g | 6.5% |
| Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti | 2.3% | 2.7% | dd/g | 2.0% |
| | | | | |
| **Cyllid** | | | | |
| Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm | 75% | 74% | dd/g | 74% |
| Benthyciadau'r Grŵp £ miliwn | 80.0 | 81.5 | 110.5 | dd/g |
| Mae gan y Grŵp ddigon o gyfleusterau benthyca gwarantedig i ariannu'r gwariant a ragwelir ar ddatblygu tai newydd ac ar gynnal a chadw a gwella eiddo, ac mae'n gallu creu digon o incwm i dderbyn ac ad-dalu benthyciadau o'r fath. | | | | |

# Dyfarniad Rheoleiddiol – Statws Cydreoleiddio

## Statws Cydreoleiddio – Marwth 2019

**Llywodraethu a Gwasanaethau - Safonol**

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

**Hyfywedd Ariannol - Safonol**

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac yn meddu ar yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.